***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 825 (Cy.31)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *13 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**):

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

**2.** 7.5 y cant fydd cyfradd ganrannol y gostyngiad a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 at ddibenion diffinio "r" yn adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

*Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*(**3**).

*Dafydd Elis Thomas*
13 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn darparu ar gyfer cyllid cyfalaf awdurdodau lleol. Mae adran 49(2) yn nodi fformwla ar gyfer penderfynu, at ddibenion Rhan IV, gwerth y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan awdurdod lleol o dan drefniant credyd mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y daw'r trefniant i fodolaeth. Un o'r ffactorau y cyfeirir ato yn y fformwla yw cyfradd ganrannol y gostyngiad a ragnodir ar gyfer blwyddyn ariannol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi 7.5 y cant, sef 0.9 y cant yn llai na chyfradd y gostyngiad a ragnodwyd ar gyfer 1999/2000.